# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 3 Awst 2020

Amser: 10.00 - 10.50

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6434

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AS (Cadeirydd)<br>David Melding AS (yn lle Suzy Davies AS)<br>Carwyn Jones AS<br>Dai Lloyd AS |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Nia Moss (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod, yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

Cafwyd ymddiheuriad gan Suzy Davies AS. Roedd David Melding AS yn dirprwyo ar ei rhan.

## 2 Offerynnau nad ydynt yn codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

### 2.1 SL(5)241 – Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Rhif 2) 2020

Nododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon ag ef.

## 3 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 3.1 SL (5) 574 – Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Asesu Cymesuredd Proffesiynau Rheoleiddiedig) (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd, ac i dynnu sylw at oblygiadau o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE. Cytunodd y Pwyllgor i ystyried ymateb Llywodraeth Cymru mewn cyfarfod yn y dyfodol.

### 3.2 SL(5)556 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.3 SL(5)556 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.4 SL(5)588 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd, ac i drafod ymateb Llywodraeth Cymru mewn cyfarfod yn y dyfodol.

### 3.5 SL(5)580 – Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 3.6 SL(5)582 – Rheoliadau Llacio'r Gofynion Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru a chytunodd y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.7 SL(5)585 – Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Sicr a Thenantiaethau Byrddaliadol Sicr, Estyn Cyfnodau Hysbysu) (Diwygio) (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd, ac i drafod ymateb Llywodraeth Cymru mewn cyfarfod yn y dyfodol.

### 3.8 SL(5)581 – Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Dyddiad Cyhoeddi'r Gofrestr Etholiadol) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

**3.9 SL(5)579 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws)(Cymru) (Rhif 2) 2020**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd, ac i drafod ymateb Llywodraeth Cymru mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**3.10 SL(5)540 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd, ac i drafod ymateb Llywodraeth Cymru mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**3.11 SL(5)587 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd, ac i drafod ymateb Llywodraeth Cymru mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**3.12 SL(5)586 – Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) 2020**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd yn flaenorol

### 4.1 SL(5)565 - Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## 5 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

### 5.1 WS-30C(5)164 - Rheoliadau Darpariaethau Cyffredin a Rheolau Darpariaethau Cyffredin y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd etc. (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Dirymu) 2020

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth.

### 5.2 WS-30C(5)165 - Rheoliadau Cerbydau Cludiant Ffyrdd Glanach (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth ac, mewn sesiwn breifat, cytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd i ofyn am eglurhad pellach ar effaith y Rheoliadau.

## 6 Papurau i'w nodi:

### 6.1 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE)

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol.

### 6.2 Llythyr gan y Gweinidog Addysg: Hysbysiad Datgymhwyso Gofynion y Cwricwlwm yng Nghymru 2020

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Addysg.

### 6.3 Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2020

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

### 6.4 Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol: Fforwm Gweinidogol ar gyfer Masnach

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol.

### 6.5 Llythyr gan y Prif Weinidog: Data ar fynediad at gyfiawnder

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Prif Weinidog.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 8 Ystyriaeth o Bapur Gwyn Llywodraeth y DU ar y farchnad fewnol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar Bapur Gwyn Llywodraeth y DU ar y farchnad fewnol, a thrafodwyd materion i'w cynnwys yn ei ymateb i Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

## 9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.22 i ethol Cadeirydd dros dro ar gyfer y cyfarfod nesaf.

O dan Reol Sefydlog 17.22, cytunodd yr Aelodau i benodi Carwyn Jones AS yn Gadeirydd dros dro ar gyfer y cyfarfod ar 24 Awst 2020, yn amodol ar gael ymddiheuriadau gan Mick Antoniw AS.